Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar wasanaethau addysg yng

# Nghyngor Sir y Fflint

Tŷ Dewi Sant
Parc Dewi Sant
Ewlo
Sir y Fflint
CH5 3FF

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Chyngor Sir y Fflint

Mae 22,175 o ddisgyblion ar draws 77 o ysgolion yn Sir y Fflint. Mae 64 o ysgolion cynradd, 11 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig ac un Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae 6 ysgol yn rhai cyfrwng Cymraeg.

Dros gyfartaledd o dair blynedd, mae 18.8% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Yn ychwanegol, helpodd gwerthusiadau o arolygiad gwaith ieuenctid a gynhaliwyd yn fuan cyn yr arolygiad hwn i lywio’r arolygiad gwasanaethau addysg llywodraeth leol ehangach, lle’r oedd yn berthnasol.

Mae ychydig o’r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint wedi’i nodi isod.

- Mae 11.4% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed o leiafrifoedd ethnig.
- Mae gan 1.2% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol).
- Mae gan 0.6% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- Mae gan 0.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Datganiad).
- Mae gan 8.7% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig (Cynllun Datblygu Unigol).
- Mae 5.2% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A, B neu C).
- Mae 4.5% o ddisgyblion rhwng 5 ac 15 oed yn rhugl yn y Gymraeg.

Plant sy’n Derbyn Gofal: Mae cyfanswm o 270 o blant yng ngofal yr awdurdod lleol.

## Crynodeb

Mae gwasanaethau addysg Sir y Fflint yn cael eu harwain gan uwch swyddogion ymroddgar sydd wedi cynnal ffocws cryf ar gefnogi ysgolion a dysgwyr bregus yn ystod cyfnod o bwysau ariannol a sefydliadol sylweddol. Mae ysgolion a phartneriaid yn gwerthfawrogi hygyrchedd, proffesiynoldeb a pharodrwydd swyddogion i weithio gyda nhw yn adeiladol.

Mae'r awdurdod wedi gwneud newidiadau pwrpasol i gryfhau ei waith yn y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys sefydlu ei wasanaeth gwella ysgolion ei hun, ehangu darpariaeth arbenigol a datblygu ymagweddau ehangach at gynhwysiant a pherthyn. Mae'r datblygiadau hyn yn dechrau gwella agweddau ar ddarpariaeth a chymorth.

Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion newydd yn cryfhau perthnasoedd ag ysgolion ac yn darparu cyngor a her reolaidd. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo'n gryf i gynhwysiant. Mae gwasanaethau arbenigol ac allymestyn yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys llawer o ddysgwyr niwrowahanol. Mae ystod eang o waith hefyd i gynorthwyo dysgwyr sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn cynnwys y blynyddoedd cynnar, ieuenctid, ymgysylltu â theuluoedd a darpariaeth yn y gymuned.

Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi sicrhau digon o welliant mewn meysydd pwysig. Er 2022, roedd angen gweithgarwch dilynol ar fwyafrif yr ysgolion uwchradd a arolygwyd. Mewn rhai achosion, mae gwendidau mewn arweinyddiaeth a llywodraethu ysgolion wedi cyfrannu'n sylweddol at yr anawsterau a brofir gan yr ysgolion hyn. Serch hynny, nid yw cymorth a her yr awdurdod bob amser wedi ysgogi gwelliant digon cyflym neu gynaledig. Er bod swyddogion yn aml yn gwybod yn dda am faterion unigol, nid yw arweinwyr yn dwyn ynghyd wybodaeth ar draws gwasanaethau addysg yn ddigon systematig i nodi risgiau yn gynnar, cydlynu cymorth a gwerthuso p'un a yw camau gweithredu yn gwneud digon o wahaniaeth i ddeilliannau ar gyfer dysgwyr.

Ar draws sawl gwasanaeth, mae gwerthuso yn canolbwyntio gormod ar weithgarwch ac enghreifftiau cadarnhaol yn hytrach nag ar effaith. Mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr bob amser yn gwybod pa ddulliau sy'n gweithio'n dda, pa rai sy'n llai effeithiol, neu ble dylid targedu adnoddau. Nid yw cynllunio gwelliant bob amser yn nodi deilliannau, graddfeydd amser neu fesurau llwyddiant yn ddigon manwl gywir. Mae'r gwendidau hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i wella darpariaeth a deilliannau yn gyson ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r awdurdod yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol ac mae newidiadau diweddar i arweinyddiaeth diogelu yn gwella cyfathrebu a gwaith partneriaeth. Fodd bynnag, nid yw trefniadau sicrhau ansawdd strategol yn ddigon cadarn. Nid yw arweinwyr yn dwyn

ynghyd ddeallusrwydd diogelu, gwybodaeth am berfformiad a thystiolaeth uniongyrchol yn ddigon systematig i'w sicrhau eu hunain fod cyfrifoldebau diogelu yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws gwasanaethau a darparwyr addysg.

Mae cynaliadwyedd ariannol ysgolion yn risg sylweddol. Mae'r awdurdod yn darparu cyngor a chymorth ariannol gwerthfawr, ond mae diffyg ariannol ym mron hanner yr ysgolion, neu maent yn agos at fod â diffyg ariannol. Nid yw dulliau presennol wedi cael digon o effaith o ran atal ysgolion rhag bod â diffyg ariannol neu'u helpu i adfer.

Mae addysg yn flaenoriaeth gorfforaethol bwysig o hyd. Fodd bynnag, mae gwendidau mewn craffu a chydlynu strategol yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i ymateb i risgiau yn brydlon a sicrhau gwelliant cynaledig. Er bod ysgolion yn gwerthfawrogi llawer o gymorth yr awdurdod, nid yw arweinwyr wedi sicrhau gwelliant yn ddigon cyflym neu gyson mewn meysydd allweddol.

Mae negeseuon a gwerthusiadau o arolygiad gwaith ieuenctid a gynhaliwyd yn fuan cyn yr arolygiad hwn wedi helpu llywio'r arolygiad gwasanaethau addysg llywodraeth ehangach, lle'r oedd yn berthnasol.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth

A2 Cryfhau cynllunio strategol i fynd i'r afael â'r risgiau a achosir gan ddiffygion ariannol a gwella cynaliadwyedd ariannol ysgolion

A3 Gwella effeithiolrwydd craffu fel bod aelodau etholedig yn canolbwyntio'n gyson ar risgiau strategol, deilliannau dysgwyr a gwella gwasanaethau addysg yn y tymor hir

A4 Cryfhau arweinyddiaeth strategol a gwella ansawdd a chysondeb hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

A5 Cryfhau cydweithio ar draws meysydd portffolio a gwasanaeth i sicrhau cymorth a her fwy effeithiol ar gyfer ysgolion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl yr arolygiad hwn, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn fod yr awdurdod lleol hwn yn achosi pryder sylweddol. Bydd yr awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr awdurdod lleol trwy gyfres o ymweliadau monitro.

## Prif ganfyddiadau

### Gwasanaethau addysg a'u heffaith

### Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn herio a chefnogi ei ysgolion a'i UCD i ddarparu arweinyddiaeth gref ac addysgu o ansawdd uchel?

Yn ddiweddar, mae'r gwasanaeth gwella ysgolion wedi cael ei ymgorffori yn Adran Addysg ac Ieuenctid y Cyngor ar ôl terfynu'r gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion ym mis Mai 2025. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae arweinwyr wedi sefydlu timau o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant sy'n ymweld ag ysgolion yn rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at berthnasoedd gwaith effeithiol rhwng swyddogion yr awdurdod lleol ac arweinwyr ysgolion. Mae gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Arweiniol Craidd weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn cydlynu gwaith eu timau yn effeithiol. Maent yn rhoi pwyslais clir ar ymateb i flaenoriaethau gwelliant unigol ysgolion ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn cynnal ffocws priodol ar addysgu a dysgu yn ystod ymweliadau ag ysgolion ac yn cymryd rhan mewn sicrhau ansawdd ar y cyd ag arweinwyr ysgolion. Mae ffocws cynyddol ar gynnwys llywodraethwyr yn y gweithgareddau craffu hyn. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cymorth buddiol i arweinwyr ysgolion gryfhau eu medrau gwerthuso ochr yn ochr â swyddogion sy'n modelu arfer effeithiol. Yn y cyfnod byr ers sefydlu'r gwasanaeth, mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi dod yn gynyddol effeithiol yn gwerthuso'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella mewn addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth ar draws yr ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod lleol yn comisiynu cymorth Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant arbenigol buddiol ar gyfer yr ysgolion arbennig a gynhelir a'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi datblygu moeseg tîm gref ac yn manteisio ar arbenigedd ei gilydd i gynnig cymorth ymarferol i ysgolion. Maent yn dechrau rhoi ystyriaeth addas i gyfraniadau gan swyddogion sydd â chyfrifoldebau mewn meysydd portffolio a gwasanaeth eraill. Er enghraifft, ar adegau, maent yn gwahodd swyddogion sy'n gyfrifol am agweddau fel presenoldeb i ymuno â chyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, ni

chaiff y cydweithio hwn ei gynllunio'n ddigon strategol i helpu Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant i wneud defnydd llawn o'r arbenigedd ehangach sydd ar gael ar draws yr awdurdod. Mae gor-ddibyniaeth ar ddulliau anffurfiol o rannu gwybodaeth, yn hytrach na systemau strwythuredig. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i fonitro cynnydd ysgolion yn gadarn.

Er mis Mai 2022, pan ailddechreuodd arolygiadau ar ôl y pandemig, mae Estyn wedi arolygu 50 o ysgolion cynradd. Roedd angen gwelliant sylweddol ar un ysgol, ac roedd angen i ysgol arall gael ei hadolygu gan Estyn. Nid oedd angen gweithgarwch dilynol ar y ddwy ysgol arbennig a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn. Arolygwyd yr UCD yn ystod y cyfnod hwn ac roedd angen iddi gael ei hadolygu gan Estyn. O'r deg ysgol uwchradd a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen mesurau arbennig ar ddwy ysgol, roedd angen gwelliant sylweddol ar ddwy ysgol, ac roedd angen i ddwy ysgol gael eu hadolygu gan Estyn. Ar ôl hynny, tybiwyd bod yr ysgolion hynny yr oedd angen gwelliant sylweddol arnynt neu'r rhai yn y categori adolygu gan Estyn wedi gwneud cynnydd digonol ac fe'u tynnwyd o'r categorïau priodol.

Ceir ymagwedd addas, raddedig at gefnogi a herio ysgolion sy'n achosi pryder. Mae swyddogion ar wahanol lefelau yn cymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol rheolaidd sy'n pennu pryd mae angen cymorth ychwanegol ar ysgolion. Ceir enghreifftiau lle mae cymorth a her wedi cyfrannu at welliannau mewn ysgolion, yn enwedig yn y sector cynradd. Fodd bynnag, dros gyfnod, nid yw camau gweithredu i fynd i'r afael â phryderon mewn ysgolion uwchradd wedi sicrhau gwelliant cyflym a chynaledig, lle mae angen. Er 2022, roedd angen gweithgarwch dilynol ar fwyafrif yr ysgolion uwchradd a arolygwyd.

Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion newydd yn dechrau gwerthuso effeithiolrwydd ei waith ac wedi nodi agweddau perthnasol i'w blaenoriaethu yn y flwyddyn academaidd nesaf. Mae adroddiadau clwstwr yn dwyn ynghyd gasgliadau ar draws ysgolion yn ddefnyddiol i sicrhau bod cymorth yn cael ei deilwra'n addas. Fodd bynnag, yn aml, mae gwerthusiadau'r awdurdod o'i waith gwella ysgolion yn rhy hael ac weithiau'n rhoi negeseuon anghyson am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn narpariaeth a pherfformiad ysgolion.

Ers terfynu'r gwasanaeth rhanbarthol, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu ystod addas o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff ysgolion sy'n canolbwyntio'n fuddiol ar addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth. Yn ychwanegol, mae swyddogion yn hwyluso rhwydweithiau proffesiynol gwerthfawr sy'n darparu cymorth priodol ar gyfer arweinwyr ysgolion mewn gwahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd. Mae swyddogion yn nodi arfer effeithiol ar draws ysgolion ac yn dechrau cyfeirio ysgolion at yr arfer hon i gryfhau cydweithio a chymorth rhwng ysgolion. Mae'r awdurdod yn sicrhau bod llywodraethwyr ysgolion yn cael cyfle i fanteisio ar hyfforddiant ac adnoddau cymorth addas. Fodd bynnag, nid yw'n

dal digon o wybodaeth am y graddau y mae llywodraethwyr yn defnyddio’r adnoddau hyn neu’n gwerthuso’u heffaith ar ansawdd llywodraethu.

## Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cefnogi dysgwyr niwrowahanol i wneud cynnydd da?

Mae awdurdod lleol Sir y Fflint yn datblygu dull mwy cynhwysol, wedi’i arwain gan anghenion, i gefnogi plant a phobl ifanc sy’n niwrowahanol, yn hytrach na dibynnu’n bennaf ar ddiagnosis ffurfiol. Dywed arweinwyr fod hyn yn helpu ysgolion a lleoliadau i ymateb i gryfderau ac anghenion disgyblion yn gynharach. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i werthuso’r effaith ar draws darpariaeth brif ffrwd.

Mae’r awdurdod lleol wedi buddsoddi’n briodol mewn ehangu ei ddarpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion sy’n niwrowahanol, i ymateb i alw cynyddol. Mae datblygu canolfannau adnoddau arbenigol mewn ysgolion, twf gwasanaethau allymestyn ac ehangu o fewn ysgolion arbennig a’r UCD yn dangos ymrwymiad arweinwyr i gynyddu capasiti lleol. Mae hyn yn galluogi staff arbenigol i fodelu arfer effeithiol, hyfforddi cydweithwyr a darparu cyngor ac arweiniad sy’n dechrau magu hyder o fewn lleoliadau prif ffrwd. Un enghraifft fuddiol yw’r ddarpariaeth synhwyraidd hynod effeithiol yn Ysgol Pen Coch, sy’n cael ei rhannu’n llwyddiannus gydag ysgolion prif ffrwd targedig.

Un o’r cryfderau eraill yw gwaith UCD Plas Derwen, lle caiff arfer sy’n ystyriol o drawma ei hymgorffori ar draws y ddarpariaeth. Mae staff yn defnyddio dulliau perthynol effeithiol sy’n cydnabod y cysylltiadau rhwng trawma, gorbryder a niwrowahaniaeth. Trwy waith allymestyn, dysgu proffesiynol a chydweithio ag ysgolion prif ffrwd, mae’r UCD yn ymestyn yr arbenigedd hwn y tu hwnt i’r lleoliad arbenigol. O ganlyniad, mae ysgolion targedig yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ymddygiad fel cyfathrebu ac yn mabwysiadu dulliau yn gynyddol sy’n hyrwyddo rheoleiddio emosiynol, perthnasoedd cadarnhaol a chynhwysiant. Mae hyn yn gwella ymgysylltiad disgyblion ac yn helpu mwy o ddisgyblion i aros yn llwyddiannus yn eu hysgolion lleol.

Mae’r gwasanaeth cynhwysiant ac allymestyn yn hyrwyddo dull wedi’i arwain gan anghenion sy’n annog ysgolion a lleoliadau i weithredu cymorth wedi’i seilio ar anghenion amlwg yn hytrach nag aros am gadarnhad diagnostig. Trwy gyngor, hyfforddi, modelau arbenigol a chynllunio ar y cyd, mae’r gwasanaeth yn dechrau helpu ysgolion a lleoliadau i ddatblygu arfer fwy cynhwysol a chryfhau nodi cynnar. Mae ymarferwyr yn nodi bod cydweithio cynhyrchiol rhwng y tîm hawliau cynnar, ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol a theuluoedd yn eu cynorthwyo i adnabod gwahaniaethau niwroddatblygiadol sy’n dod i’r amlwg yn gynharach.

Mae’r awdurdod lleol yn dechrau cryfhau cymorth ôl-16 ar gyfer dysgwyr niwrowahanol trwy gydweithio agosach â'r coleg addysg bellach lleol. Mae swyddogion yn disgrifio

trefniadau pontio cynyddol sefydledig, gyda threfn well o ran rhannu gwybodaeth a chynllunio ar y cyd yn helpu darparwyr i baratoi ar gyfer anghenion unigol dysgwyr.

Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu dwy ganolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion sy'n niwrowahanol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg gyffredinol ar gyfer disgyblion sy'n niwrowahanol ar draws ysgolion prif ffrwd wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Mae arweinwyr yn cydnabod y mater hwn ac wedi dechrau cynllunio ar gyfer ehangu.

Mae arweinwyr wedi dechrau gweithredu blaengynllun gwaith i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n niwrowahanol. Fodd bynnag, nid oes gan yr awdurdod ddull strategol cynhwysfawr i gefnogi dysgwyr niwrowahanol sy'n diffinio blaenoriaethau, cyfrifoldebau, graddfeydd amser, adnoddau, mesurau llwyddiant ac effaith ddisgwyliedig yn glir. Mae hyn yn lleihau gallu'r awdurdod i gyfleu ei gyfeiriad cyffredinol yn gyson a gwerthuso'n systematig p'un a yw ei fentrau amrywiol yn gwella deilliannau ar y cyd ar gyfer disgyblion sy'n niwrowahanol. Yn ychwanegol, mae datblygiadau presennol yn canolbwyntio'n bennaf ar awtistiaeth, gyda llai o dystiolaeth o ddull yr un mor ddatblygedig i gefnogi'r boblogaeth niwrowahanol ehangach. O ganlyniad, nid yw gwaith yr awdurdod yn adlewyrchu ehangder llawn angen niwrowahanol eto ar draws ei ysgolion a'i leoliadau.

Mae ysgolion a lleoliadau yn elwa ar raglen dysgu proffesiynol ddefnyddiol sy'n cefnogi datblygiad arfer gynhwysol. Caiff cyfleoedd fel rhaglenni'r Rhwydwaith Addysg Niwrogynhwysol (NEN), cymorth allymestyn ac ymgynghoriadau seicoleg addysg eu gwerthfawrogi gan ymarferwyr ac maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu dealltwriaeth staff o niwroamrywiaeth. Mae rhwydweithiau proffesiynol, yn cynnwys fforymau Cydlynwyr ADY, y grŵp cyfeirio penaethiaid a grwpiau clwstwr, yn cryfhau dysgu ar y cyd ymhellach trwy alluogi ysgolion i rannu arfer effeithiol, trafod heriau cyffredin a manteisio ar gyngor arbenigol.

Mae gwaith partneriaeth ar draws sefydliadau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn datblygu'n briodol. Mae llwybrau atgyfeirio diwygiedig a dulliau cynyddol gydweithredol yn dechrau cefnogi dealltwriaeth fwy cyfannol o anghenion plant a phobl ifanc ac yn gwella cydgynllunio ar gyfer cymorth. Mae ysgolion a lleoliadau yn cydnabod proffesiynoldeb, arbenigedd ac ymroddiad swyddogion ac ymarferwyr arbenigol yn gyson. Er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn galw, mae ysgolion a lleoliadau yn gwerthfawrogi'r ymatebolrwydd a'r cymorth ymarferol a ddarperir gan wasanaethau unigol. Fodd bynnag, mae ysgolion a lleoliadau yn sôn yn aml am ansicrwydd ynghylch cymorth iechyd sydd ar gael, ac yn parhau i brofi oedi sy'n effeithio ar ymyrraeth amserol.

Er bod gwybodaeth sylweddol yn cael ei chasglu gan wasanaethau, ysgolion, lleoliadau a darpariaeth arbenigol unigol, ni chaiff y wybodaeth hon ei dadansoddi'n systematig i

ddarparu darlun cydlynus o gryfderau, meysydd i'w gwella neu flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn gallu nodi ble mae darpariaeth ar ei chryfaf, ble mae amrywiad yn bodoli neu pa ddulliau sy'n cael yr effaith fwyaf.

Mae arweinwyr cynhwysiant yn cryfhau eu defnydd o wybodaeth am berfformiad i fonitro deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n niwrowahanol. Er bod arweinwyr yn monitro ystod o ddangosyddion, nid ydynt yn dadansoddi effaith strategaethau ac ymyriadau ar bresenoldeb, gwaharddiadau a lles dysgwyr yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i nodi tueddiadau, targedu cymorth yn effeithiol a gwerthuso p'un a yw datblygiadau strategol yn arwain at welliannau mesuradwy.

Er bod ysgolion a lleoliadau yn casglu adborth gwerthfawr gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy waith achos unigol, nid yw trefniadau ar gyfer casglu, dadansoddi a defnyddio adborth yn strategol yn ddigon systematig ar draws yr awdurdod. O ganlyniad, ni all arweinwyr ddangos yn gyson sut mae'r adborth hwn yn llywio cynllunio strategol, cynllunio gwasanaethau a gwelliant ar draws y system ehangach.

## Pa mor effeithiol yw gwaith yr awdurdod lleol i wella deilliannau ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel?

Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar les dysgwyr yn flaenoriaeth ar draws y Cyngor ac mae amcanion allweddol perthnasol yn ymddangos yn glir o fewn cynllun strategol yr awdurdod lleol. Nod Strategaeth Berthyn amlasiantaethol y gwasanaeth addysg, a ddatblygwyd gydag arweinwyr ysgolion a phartneriaid, yw gwella presenoldeb, cynhwysiant a lles ar gyfer pob un o'r dysgwyr, yn cynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel. Mae'r dull hwn ledled yr awdurdod lleol yn datblygu ffocws strategol cliriach ar wella deilliannau, cryfhau cynhwysiant ac ymestyn cydweithio ar draws portffolios a gwasanaethau. Mae uwch swyddogion a phenaethiaid yn sicrhau bod disgyblion o aelwydydd incwm isel a grwpiau bregus eraill yn cael eu cynrychioli'n gadarnhaol yn fforwm ieuenctid Sir y Fflint Ifanc a grwpiau dysgwyr eraill. Er gwaethaf gweledigaeth glir ac uchelgeisiol, mae cyflymdra gweithredu'r Strategaeth Berthyn wedi bod yn araf.

Mae'r gwasanaeth addysg yn darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau sefydledig i gefnogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel, a ariennir trwy'r Grant Datblygu Disgyblion, Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar a grantiau eraill Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth addysg yn darparu llawer o wasanaethau sefydledig a defnyddiol ac ymyriadau buddiol o fewn ei bortffolio i gefnogi ei waith o amgylch lliniaru effaith tlodi ar les a deilliannau disgyblion. Mae hefyd yn cyflenwi darpariaethau eraill mewn cydweithrediad ag adrannau eraill sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc o deuluoedd incwm isel. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gwasanaeth Dechrau'n Deg eang

- darpariaeth ychwanegol ar gyfer dysgwyr bregus o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid
- menter lleferydd, iaith a chyfathrebu sefydledig ac effeithiol ar draws llawer o ysgolion cynradd
- menter pontio 'Bwyd a Hwyl' yn ystod gwyliau'r haf
- gwasanaeth 'Urddas Mislif tra ystyriol ar draws pob ysgol, gwasanaeth ieuenctid a grŵp cymunedol
- prosiect cyllidebu a choginio buddiol i deuluoedd, sef 'Bwyta'n Gall, Arbed Arian', ar draws lleiafrif o ysgolion
- rhaglen gymdeithasol a dysgu y tu allan i'r ysgol ar gyfer grŵp ehangach o ddysgwyr bregus
- timau penodol o fewn y Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant, fel Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd, y Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Sipsiwn a Theithwyr a Phlant sy'n Derbyn Gofal, y Tîm Dilyniant, y Gwasanaeth Ysgolion Bro a'r Gwasanaeth Ysgolion Iach

Mae gwasanaethau a thimau perthnasol yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi gwaith ei gilydd yn gynhyrchiol. Mae staff ar draws gwasanaethau yn dangos uchelgais cryf i wella lles a llesiant plant a'u teuluoedd, ac mae hyn yn gryfder nodedig. Mae barn ysgolion am y gwasanaethau hyn yn gadarnhaol ond mae amwysedd ynghylch pa wasanaethau y gallant eu defnyddio a'r meysydd y maent yn eu cwmpasu. Mae diffyg eglurder o amgylch cyfeiriad strategol rhai gwasanaethau a'u gallu i ddarparu cymorth ledled y sir.

Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion a ffurfiwyd yn ddiweddar yn darparu cymorth a her addas i ysgolion ynghylch deilliannau ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel. Mae ymgynghorwyr yn darparu arweiniad defnyddiol ar gynllunio, gwario a gwerthuso'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD), ac yn darparu goruchwyliaeth a her i gyrff llywodraethol yn gynyddol. Mae ysgolion yn cymryd rhan mewn trafodaethau buddiol gydag ymgynghorwyr ynghylch ymyriadau wedi'u llywio gan dystiolaeth. Er bod y gwaith hwn yn datblygu'n addas, mae'n ddyddiau cynnar o hyd. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn nodi bod angen cryfhau eu gwerthusiad mewnol eu hunain o wariant grantiau. Mae Gwasanaeth Ymgysylltu'r awdurdod lleol yn defnyddio gwybodaeth dymhorol am les a phresenoldeb gan ysgolion i dargedu presenoldeb a chymorth ymgysylltu. Fodd bynnag, ni chaiff y wybodaeth ei dadansoddi'n ddigon cyflym bob amser i gefnogi ymateb cynnar i bresenoldeb isel. Nid yw cydweithio rhwng y Gwasanaeth Ymgysylltu ac Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae’r awdurdod lleol yn monitro’r defnydd o gyllid grant yn addas, yn cynnwys y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a GDD y Blynyddoedd Cynnar. Mae’r awdurdod yn creu trosolwg blynyddol bras o wariant, crynodeb naratif o ddarpariaeth ac astudiaethau achos defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw’r drefn adrodd yn cynnwys dadansoddiad strategol, ledled system o sut mae gwariant grantiau yn effeithio ar gynnydd a lles disgyblion. Yn ddiweddar, mae uwch swyddogion wedi dechrau cymryd camau i fynd i’r afael â hyn.

At ei gilydd, nid yw sicrhau ansawdd a gwerthuso gwaith yr awdurdod lleol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel wedi’i ddatblygu’n ddigonol. Nid yw arweinwyr yn dadansoddi gwybodaeth am berfformiad a lles yn ddigon systematig i nodi blaenoriaethau clir neu werthuso effaith gyffredinol gwaith yr awdurdod ar gyfer disgyblion o aelwydydd incwm isel. Maent yn ystyried tystiolaeth feintiol, yn cynnwys presenoldeb, gwaharddiadau a deilliannau datblygiad iaith, data dilyniant a lefelau derbyn a chyfranogiad mewn gwasanaethau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r wybodaeth hon na thystiolaeth uniongyrchol yn ddigon cyson i nodi cryfderau a diffygion. Er bod yr awdurdod yn casglu ychydig o lais a barn dysgwyr, mae ei werthusiadau o fentrau yn tueddu i fod yn anecdotaidd a disgrifiadol.

Er 2022, mae presenoldeb disgyblion oedran cynradd yn Sir y Fflint sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn debyg i bresenoldeb eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, at ei gilydd. Mewn ysgolion uwchradd, mae eu presenoldeb wedi bod yn is na phresenoldeb disgyblion mewn ysgolion tebyg mewn tua hanner yr ysgolion, ac yn debyg i bresenoldeb yn y gweddill, at ei gilydd, neu’n uwch. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar ddiwedd Blwyddyn 11 wedi bod yn amrywiol. Mewn tua hanner yr ysgolion, mae eu perfformiad wedi cyd-fynd â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg, at ei gilydd, ac mae wedi bod yn is yn yr hanner arall.

### Pa mor dda y mae’r awdurdod lleol yn herio a chefnogi ei ysgolion i reoli eu cyllidebau yn effeithiol, gyda ffocws ar sicrhau deilliannau da ar gyfer dysgwyr?

Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau cydlynus i gefnogi a herio ysgolion i reoli eu cyllidebau mewn cyfnod o bwysau ariannol sylweddol. Mae gan swyddogion ddealltwriaeth glir o’r prif bwysau sy’n effeithio ar gyllidebau ysgolion, yn cynnwys gostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr, galw cynyddol o ran ADY, costau’r gweithlu, newid demograffeg a chyflwr yr ystâd ysgolion. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi hygyrchedd ac ymatebolrwydd swyddogion cyllid a’r cyngor ymarferol y maent yn ei ddarparu.

Mae’r awdurdod yn darparu monitro cyllideb, rhagolygon tair blynedd, modelu’r gweithlu a chynllunio senarios yn rheolaidd i helpu ysgolion i ddeall eu sefyllfa ariannol. Mae swyddogion cyllid dynodedig yn gweithio’n agos gydag ysgolion ac yn teilwra’u cyngor i amgylchiadau unigol. Mae’r trefniadau hyn yn helpu arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion

i ddeall pwysau uniongyrchol o ran y gyllideb a chynllunio ar gyfer newidiadau staffio a sefydliadol.

Mae trefniadau llywodraethu i oruchwylio cyllidebau ysgolion yn briodol. Mae gan yr awdurdod weithdrefnau clir ar gyfer monitro balansau ysgolion, diffygion trwyddedig a chynlluniau adfer. Mae swyddogion yn darparu adroddiadau rheolaidd i uwch arweinwyr, aelodau etholedig a'r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi goruchwyliaeth briodol o gyllid ysgolion unigol ac yn galluogi her lle mae ysgolion yn wynebu anhawster ariannol.

Mae'r awdurdod wedi cryfhau gweithio integredig rhwng swyddogion cyllid, adnoddau dynol, anghenion dysgu ychwanegol ac addysg. Mae hyn yn cefnogi ymagwedd fwy cyfannol at ysgolion sy'n wynebu anhawster ariannol. Mae swyddogion yn ystyried ystod ehangach o ffactorau, yn cynnwys capasiti arwain, strwythurau staffio, niferoedd disgyblion, pwysau o ran ADY a deilliannau arolygu. Mae hyn yn helpu'r awdurdod i ddarparu cymorth a her fwy teilwredig i ysgolion unigol.

Er gwaethaf y cymorth hwn, mae sefyllfa ariannol gyffredinol ysgolion wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. Mae mwy o ysgolion yn wynebu diffyg ariannol, ac am y tro cyntaf, symudodd ysgolion gyda'i gilydd i fod mewn sefyllfa o ddiffyg cyffredinol yn 2025-26. Mae'r awdurdod yn deall bod hyn yn risg sylweddol i welliant ysgolion a chynaliadwyedd gwasanaethau addysg. Fodd bynnag, nid yw ei ymateb strategol wedi cryfhau gwydnwch ariannol ysgolion yn ddigonol.

Yn aml, caiff ymyrraeth ei sbarduno pan mae ysgolion yn wynebu diffyg ariannol eisoes, yn hytrach na phan mae cronfeydd wrth gefn yn gwanhau. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i weithredu'n ataliol. Nid yw'r awdurdod yn defnyddio meincnodi, deallusrwydd ariannol cymharol na dysgu ledled y system yn ddigon da i lywio penderfyniadau strategol am gyllidebau ysgolion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi patrymau risg ariannol yn ddigon cynnar nac yn defnyddio deallusrwydd gan ysgolion unigol i gryfhau cynllunio ar draws y system.

Mae nifer gynyddol yr ysgolion sydd angen cymorth ariannol dwys yn rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion ac yn lleihau eu capasiti ar gyfer gwaith ataliol a strategol. Er bod swyddogion yn darparu cymorth gwerthfawr i ysgolion unigol, nid yw'r awdurdod yn gwerthuso'n ddigon da p'un a yw hyn yn gwella arweinyddiaeth ariannol, yn lleihau diffygion ariannol neu'n cryfhau gwydnwch tymor hir.

Mae gan yr awdurdod drefniadau priodol i gynorthwyo ysgolion â rheolaeth ariannol uniongyrchol. Fodd bynnag, nid oes digon o frys i roi mesurau ar waith i fynd i'r afael â sefyllfa ddirywiol balansau ysgolion. Nid yw dulliau presennol yn cael digon o effaith ar gynaliadwyedd ariannol tymor hir ysgolion.

## Arwain a gwella

Mae uwch arweinwyr yn Sir y Fflint yn dangos ymrwymiad cryf i wella gwasanaethau addysg a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Prif Swyddog Addysg yn darparu arweinyddiaeth ymroddedig, wydn a gwybodus ac wedi cynnal ffocws clir ar flaenoriaethau allweddol yn ystod cyfnod o her sylweddol. Mae arweinwyr ar draws y portffolio Addysg ac Ieuenctid yn deall llawer o'r prif bwysau sy'n wynebu'r awdurdod, fel gwella ysgolion, presenoldeb, gwaharddiadau, diogelu, cyllidebau ysgolion a threfniadaeth ysgolion. Maent yn adnabod eu meysydd cyfrifoldeb yn dda ac wedi datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag ysgolion, partneriaid allanol a gwasanaethau eraill y Cyngor.

Mae arweinwyr wedi gwneud penderfyniadau pwrpasol i gryfhau gwasanaethau addysg. Mae'r rhain yn cynnwys sefydlu Gwasanaeth Gwella Ysgolion Sir y Fflint, cryfhau agweddau ar arweinyddiaeth ddiogelu, ehangu capasiti ADY arbenigol, datblygu Sir y Fflint Ifanc a gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i ddatblygu'r Strategaeth Berthyn. Mae'r gwasanaeth gwella ysgolion newydd yn ddatblygiad hynod bwysig, ac mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r berthynas fwy uniongyrchol â'r awdurdod. Mae'r gwasanaeth yn dechrau darparu model cymorth a her mwy ymatebol a chyson. Mae gwaith ar draws portffolios a gwasanaethau yn datblygu, a cheir enghreifftiau cadarnhaol o dimau yn cydweithio i gefnogi ysgolion a dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn dwyn ynghyd ddeallusrwydd ar draws eu gwasanaethau yn ddigon systematig eto. Mae gormod yn dibynnu ar gyfathrebu anffurfiol a pherthnasoedd unigol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i gynnal golwg gyson gyflawn ar risgiau mewn ysgolion a sicrhau bod cymorth a her yn amserol, yn gydlynus ac yn ddigon craff.

Mewn sawl maes, mae arweinyddiaeth weithredol yn effeithiol, ar y cyfan, ac mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau addas i nodi ac ymateb i risg. Mae ysgolion a phartneriaid yn gwerthfawrogi arbenigedd ac ymroddiad swyddogion a thimau arbenigol. Fodd bynnag, mae cymorth yn aml yn gryfach ar lefel weithredol neu ysgol unigol nag ydyw wrth sicrhau newid strategol, ar draws y system. Nid yw arweinwyr bob amser yn symud yn ddigon cyflym na chydlynus o nodi risg i sicrhau gwelliant. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn meysydd fel ysgolion sy'n achosi pryder, presenoldeb, gwaharddiadau, cyllid ysgolion a threfniadaeth ysgolion. Yn y meysydd hyn, yn aml, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o'r materion, ond nid yw eu gweithredoedd wedi sicrhau cyflymdra digonol na gwelliant cyson.

Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn cydnabod bod addysg yn flaenoriaeth gorfforaethol bwysig. Mae aelodau'n derbyn gwybodaeth sylweddol trwy brosesau'r Cabinet, craffu a phrosesau eraill y Cyngor, a gall craffu ddarparu her ddefnyddiol, o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw craffu ar wasanaethau addysg yn ddigon effeithiol. Mae'r awdurdod yn cydnabod nad yw ei drefniadau craffu yn gweithio'n ddigon

da ac mae wrthi'n adolygu ei gyfansoddiad a'i brosesau craffu. O ran addysg, mae nifer fach o aelodau etholedig wedi gwleidyddoli agweddau ar graffu, ac wedi canolbwyntio gormod ar unigolion yn hytrach na materion, o bryd i'w gilydd. Mae hyn wedi gwanhau tôn ac effeithiolrwydd craffu, wedi rhoi pwysau sylweddol ar swyddogion, wedi effeithio ar eu lles ac wedi ymgorffori capasiti arwain. O ganlyniad, nid yw craffu'n canolbwyntio'n ddigon craff ar risg strategol, deilliannau dysgwyr a gwella gwasanaethau addysg yn y tymor hir.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i ddeall gwaith gwasanaethau addysg. Yn gyffredinol, mae hyn yn eu helpu i nodi blaenoriaethau priodol eang. Ceir enghreifftiau lle mae gwerthuso a myfyrio wedi arwain at weithredu pwrpasol. Er enghraifft, mae gwaith yr awdurdod ar lais y dysgwr a chyfranogiad dysgwyr yn datblygu'n dda. Mae Sir y Fflint Ifanc, y Cyngor Ieuenctid, cynghorau ysgol a grwpiau ffocws yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar flaenoriaethau a darpariaeth. Mae'r Strategaeth Berthyn, a ddatblygwyd ar draws gwasanaethau addysg, ysgolion a phartneriaid, hefyd yn enghraifft ddefnyddiol o gynllunio wedi'i lywio gan dystiolaeth. Mae'n defnyddio llais y dysgwr, canfyddiadau arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ac ymgysylltiad penaethiaid, ac yn dwyn ynghyd flaenoriaethau sy'n ymwneud â phresenoldeb, cynhwysiant, lles, ymddygiad, tlodi ac ADY. Fodd bynnag, megis dechrau y mae llawer o'r gwaith hwn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'i effaith ar ddeilliannau dysgwyr.

Un o'r gwendidau allweddol yn nhrefn yr awdurdod o ran hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yw gwerthuso effaith. Ar draws sawl gwasanaeth, mae arweinwyr yn disgrifio gweithgarwch, darpariaeth ac enghreifftiau unigol yn fwy effeithiol nag y maent yn gwerthuso'r gwahaniaeth y mae'r gwaith hwn yn ei wneud i ddysgwyr. Mae hyn yn amlwg yng ngwaith yr awdurdod ar wella ysgolion, diogelu, dysgu proffesiynol, gwasanaethau wedi eu comisiynu a chyllid ysgolion, yn ogystal â gwaith i gefnogi dysgwyr niwrowahanol a dysgwyr o aelwydydd incwm isel. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser yn gallu nodi pa ddulliau sy'n gweithio orau, pa rai sy'n llai effeithiol, a ble dylid targedu adnoddau yn fwy manwl gywir. Mae hunanwerthuso yn rhy amrywiol ar draws gwasanaethau. Er bod rhai gwasanaethau yn gynyddol fyfyriol ac yn cael eu llywio gan dystiolaeth, nid yw gwasanaethau eraill yn defnyddio ystod o dystiolaeth sy'n ddigon eang neu wedi'i thriongli'n dda i werthuso'u gwaith yn gywir. Mewn gwelliant ysgolion, mae'r gwasanaeth newydd yn dechrau gwerthuso'i waith, ac mae adroddiadau clwstwr yn darparu crynodebau defnyddiol o flaenoriaethau gwella ysgolion a chymorth cynlluniedig. Fodd bynnag, mae gwerthusiadau weithiau'n rhy gadarnhaol ac nid ydynt bob amser yn ystyried yn ddigon clir effaith y cymorth ar safonau a deilliannau disgyblion. Mewn ychydig o achosion, mae negeseuon am gryfderau a gwendidau ysgolion yn anghyson, sy'n ei gwneud yn anos i uwch arweinwyr ac aelodau etholedig gael dealltwriaeth gadarn o berfformiad ysgolion.

Mae cynllun strategol y Cyngor yn amlinellu gweledigaeth glir ar gyfer Sir y Fflint fel man lle mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial, byw yn dda a chyfrannu at eu cymunedau. Mae ei themâu eang o bobl, lle a ffyniant yn darparu fframwaith addas ar gyfer addysg a gwasanaethau ieuenctid, gan helpu arweinwyr i gysylltu blaenoriaethau addysg â gwaith ehangach ar les, cynhwysiant, cymunedau, cyflogaeth a chynaliadwyedd tymor hir. Mae hyn yn adlewyrchu eu huchelgais i blant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cynnwys ac yn gallu llwyddo. Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiad rhwng yr uchelgeisiau eang hyn ac effaith fwriadedig camau gweithredu gwelliant penodol bob amser yn ddigon manwl gywir. Yn gyffredinol, mae cynllunio gwelliant ehangach yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau trosfwaol hyn, ond nid yw manylion meini prawf llwyddiant, graddfeydd amser a chostau bob amser yn glir. Yn aml, mae cynlluniau cysylltiedig ar draws gwasanaethau yn disgrifio camau gweithredu i'w cwblhau yn hytrach na'r deilliannau y mae arweinwyr yn eu disgwyl ar gyfer dysgwyr. Weithiau, mae mesurau llwyddiant yn rhy eang neu'n canolbwyntio gormod ar broses, fel llunio arweiniad, lansio mentrau neu gynyddu gweithgarwch. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr farnu p'un a yw camau gweithredu yn gwella darpariaeth, yn cryfhau arfer neu'n sicrhau deilliannau gwell.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i faterion cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu ac yn alinio'r gwaith hwn yn briodol â blaenoriaethau corfforaethol a chenedlaethol ehangach. Ceir enghreifftiau cadarnhaol lle mae disgyblion yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith, gan gynnwys trwy brosiectau gwrth-hiliaeth, digwyddiadau Pride a gwaith i gryfhau ymagweddau at fwlio a digwyddiadau gwahaniaethol. Mae'r awdurdod hefyd wedi cyflwyno systemau defnyddiol a rhaglenni targedig, yn cynnwys prosiectau gwrthfwlio penodol, i helpu ysgolion i nodi pryderon, ac ymateb iddynt.

Mae uwch arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r awdurdod lleol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar agweddau dysgwyr tuag at y Gymraeg a chymryd rhan mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd wedi cryfhau llwybrau dilyniant, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr awdurdod ymagwedd gynlluniedig at wella medrau Cymraeg staff ysgolion ac yn defnyddio dysgu proffesiynol teilwredig ochr yn ochr â dadansoddiad o gymhwysedd iaith gweithlu i dargedu cymorth yn effeithiol.

Gall swyddogion fanteisio ar ystod addas o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ac anghenion gwasanaeth. Mewn sawl maes, mae dysgu proffesiynol yn helpu datblygu dulliau ar y cyd ar draws gwasanaethau, ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, mae arfer sy'n ystyriol o drawma yn cefnogi gwaith yr awdurdod ar berthyn a chynhwysiant, tra bod dysgu proffesiynol ar niwroamrywiaeth, cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymgynghori seicoleg

addysg, ynghyd â'r rhwydweithiau cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynydd ADY), yn cryfhau dealltwriaeth ymarferwyr o sut i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn dechrau datblygu ei gynnig dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion trwy'r gwasanaeth gwella ysgolion newydd, yn cynnwys rhwydweithiau a chymorth sy'n canolbwyntio ar addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth, ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarnhaol lle mae diogelu yn cael ei gydnabod fel cyfrifoldeb ar y cyd ar draws pob un o'r gwasanaethau. Mae arweinwyr yn gosod lles plant a phobl ifanc yn ganolog i gynllunio strategol ac arfer weithredol. Mae hyn yn cefnogi dull ataliol sy'n datblygu trwy wasanaethau ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd a darpariaeth ieuenctid. O ganlyniad, mae asiantaethau mewn sefyllfa dda, ar y cyfan, i nodi pryderon yn gynnar ac yn darparu cymorth amserol sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd anghenion yn dwysáu.

Mae newidiadau diweddar i'r strwythur arweinyddiaeth diogelu o fewn y gwasanaeth addysg yn dechrau cryfhau goruchwyliaeth strategol ac yn egluro rôl a chyfrifoldebau'r unigolyn diogelu dynodedig. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae'r unigolyn diogelu dynodedig wedi gwella cyfathrebu rhwng ysgolion, gwasanaethau addysg ac asiantaethau partner. Yn benodol, mae cydweithio cryfach rhwng ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cael ei hwyluso gan unigolyn diogelu dynodedig, yn rhoi dealltwriaeth gliriach i ysgolion o drothwyau diogelu, prosesau atgyfeirio a'u cyfrifoldebau statudol. Mae cydweithio ehangach rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, yr heddlu a phartneriaid diogelu rhanbarthol yn cefnogi rhannu gwybodaeth yn amserol, gwneud penderfyniadau cydlynus ac ymatebion effeithiol i blant a phobl ifanc fregus. O ganlyniad, mae gwaith partneriaeth yn gryfder nodedig.

Mae trefniadau sefydledig ar gyfer amddiffyn plant, gweithdrefnau ar gyfer plant sy'n colli addysg, panelau camfanteisio a rhwydweithiau diogelu lleol a rhanbarthol yn darparu mecanweithiau priodol ar gyfer ymarferwyr i nodi, uwchgyfeirio ac ymateb i bryderon ynghylch diogelu. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at allu'r awdurdod i ymateb i risgiau ynghylch diogelu.

Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn dadansoddi gwybodaeth allweddol am berfformiad, yn cynnwys data presenoldeb, yn ddigon aml na manwl i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg neu lywio'r drefn i wneud penderfyniadau strategol yn gyson. Nid yw'r awdurdod lleol yn casglu adroddiadau ar ddefnyddio ymyriadau corfforol gan ysgolion. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o arfer ddiogelu ar draws ysgolion a darparwyr addysg eraill yn gyfyngedig.

Nid yw trefniadau corfforaethol presennol ar gyfer monitro hyfforddiant diogelu, cymwyseddau gweithlu ac ansawdd arfer yn rhoi sicrwydd digonol i arweinwyr fod

cyfrifoldebau diogelu yn cael eu gweithredu’n gyson ar draws pob un o’r gwasanaethau a’r darparwyr. O ganlyniad, mae gwerthuso strategol yn dibynnu gormod ar fesurau gweithgarwch, cydymffurfio ac astudiaethau achos unigol, yn hytrach nag ar werthuso gweithdrefnau ac arfer ddiogelu yn systematig.

Mae’r awdurdod yn cydnabod bod angen cryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd ymhellach. Nid yw prosesau ar gyfer dwyn ynghyd ddeallusrwydd ar draws gwasanaethau addysg a gwasanaethau ehangach y Cyngor fel mater o drefn wedi cael eu datblygu’n ddigonol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr drosolwg ddigon cynhwysfawr o dueddiadau diogelu a risgiau sy’n dod i’r amlwg i herio arweinwyr ysgolion yn effeithiol a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn brydlon.

Mae galw cynyddol am gymorth ac arweiniad o ran diogelu yn parhau i roi pwysau ar gapasiti. Mae hyn yn achosi risg i ddatblygiad a chynaliadwyedd darpariaeth ddiogelu ar draws y ddarpariaeth yn y tymor hir.

Mae prosesau cynllunio ariannol tymor canolig yr awdurdod yn ystyried ffactorau perthnasol. Fodd bynnag, mae lefelau cyllid isel i bob preswylydd yn cyfyngu ar ei allu i fynd i’r afael â heriau ariannol yn strategol. Er bod cyfradd ddirprwyo’r awdurdod ychydig uwchlaw cymedr Cymru, mae cyllid fesul disgybl yn y sectorau cynradd ac uwchradd islaw’r cymedr.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r awdurdod wedi ariannu’r pwysau o ran costau ysgolion yn llawn, er enghraifft dyfarniadau cyflog. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol ar draws gwasanaethau eraill wedi arwain at doriadau i gyllidebau ysgolion a’r gyllideb addysg ehangach, sy’n effeithio ar gapasiti ysgolion a chymorth canolog. Yn 2026-27, penderfynodd yr awdurdod ailgyfeirio arbedion o ostyngiad yn niferoedd y disgyblion i helpu ysgolion i ymdrin â’r galw cynyddol o ran ADY.

Mae’r awdurdod yn ystyried mai hyfywedd ariannol ysgolion yw ei risg gorfforaethol uchaf. Gan fod bron i hanner yr ysgolion mewn diffyg ariannol, a llawer o ysgolion eraill yn agos at fod yn y sefyllfa honno, mae gan y mater hwn y potensial i effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cyffredinol yr awdurdod. Er bod mynd i’r afael â hyn yn flaenoriaeth, mae dull yr awdurdod wedi cael effaith gyfyngedig yn atal ysgolion rhag symud i fod mewn diffyg neu’u cefnogi i adfer. Mae hyn yn uchafu arwyddocâd y mater hwn.

Nid yw'r awdurdod wedi cynnal adolygiad llawn o’i fformiwla cyllid ysgolion er 2014. O ganlyniad, ni all ddangos bod ei ddull bellach yn diwallu anghenion pob un o’r dysgwyr a’r lleoliadau. Er bod yr awdurdod wedi diwygio’i fformiwla ar gyfer dosbarthu cyllid ADY i ysgolion cynradd o 2024-25 ymlaen, nid yw wedi gwerthuso effaith y newid hwnnw.

Mae aelodau o’r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn gwerthfawrogi’r ymgysylltiad a’r wybodaeth y mae swyddogion yn eu darparu am gyllid ysgolion a sefyllfa ariannol gyffredinol yr

awdurdod. Mae'r fforwm yn deall prosesau gweithredol yn dda ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol, ond nid yw'n chwarae rôl strategol mewn helpu'r awdurdod i fynd i'r afael â heriau ariannol ysgolion.

Mae'r tîm lleoedd a moderneiddio ysgolion yn defnyddio data ar gyflwr adeiladau ysgolion yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y tymor hir ac yn defnyddio dulliau arloesol i sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau ysgolion. Mae'r tîm hefyd wedi creu diweddariadau defnyddiol ar gyfer aelodau etholedig am amcanestyniadau disgyblion yn y dyfodol i lywio gosod cyllidebau. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi cysylltu'r gwaith hwn yn llawn â her ehangach cyllid ysgolion.

Mae'r awdurdod yn cydnabod nad yw ei hyfforddiant a'i gymorth ar gyfer cyrff llywodraethol yn eu paratoi'n ddigon cyson ar gyfer yr heriau ariannol a'r penderfyniadau strategol y gallent eu hwynebu. Lle mae cyrff llywodraethol wedi gweithredu ar gyngor yr awdurdod, ceir enghreifftiau o effaith gadarnhaol ar gronfeydd wrth gefn ysgolion, ond nid yw hyn yn gyson ar draws ysgolion.

Wrth adolygu gwasanaethau wedi eu comisiynu, er enghraifft gwasanaethau cwnsela a lleoliadau'r tu allan i'r sir, mae'r awdurdod yn ystyried agweddau ar effeithiolrwydd gwasanaethau a deilliannau dysgwyr ond nid yw'n ystyried costau nac effeithlonrwydd yn ddigon llawn. Nid yw ei drefn o ran gwerthuso effaith a gwerth am arian cyllid grant, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw mewn sefyllfa dda i asesu'n gyson y gwerth am arian y mae'n ei sicrhau.

Mae lefelau manteisio uchel yn dangos bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau cymorth a ddarperir trwy gytundebau lefel gwasanaeth (CLGau). Fodd bynnag, dywed ysgolion fod llawer o alw yn gallu cyfyngu ar allu'r awdurdod i ymateb yn gyflym mewn rhai meysydd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, yn seiliedig ar hunanwerthusiad yr awdurdod, cynlluniau strategol a data perthnasol a ddelir gan Estyn
- yn dadansoddi'r canlyniadau o holiaduron agored, yn cynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion, staff yr awdurdod lleol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag ystod o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a'r trydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cyfarfod ag arweinydd y Cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg a staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol
- yn edrych yn agos ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor neu'r pwyllgor craffu, gwybodaeth yn ymwneud â diogelu dysgwyr, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a ddelir gan Estyn

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu, er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- yn darparu copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol i nodi unrhyw bryderon â chywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau ble mae angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  24/08/2026